



**HEDDLU**  
**GOGLEDD CYMRU**  
**NORTH WALES**  
**POLICE**

## ARWEINIAD I DROSEDD CYFEILLIO

### DIFFINIAD O DROSEDD CYFEILLIO

Pan niweidir neu manteisir ar unigolyn gan rywun roeddent yn feddwl eu bod yn gyfaill iddynt.



Mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cydraddoldeb  
Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru.



Gall pobl gydag anableddau dysgu, awtistiaeth, afiechyd meddyliol a rhai pobl hyn fod yn hynod fregus i **'Drosedd Cyfeillio'**. Hyn yw camdriniaeth gorfforol, meddyliol neu ariannol gan rai a ystyrient yn gyfeillion.

Tra gallent ystyried hysbysu am ymosodiad gan ddieithryn, efallai eu bod yn amharod ac yn ddryslyd ynghylch hysbysu ymddygiad ymosodol rhywun nad ydynt eisiau eu colli fel cyfaill.

## CYNNWYS

- **FFURFIAU O DROSEDD CYFEILLIO** ..... 1
- **SUT ALLWCH SYLWI AR DROSEDD CYFEILLIO?** ..... 2
- **SUT I WEITHREDU OS SYLWIR AR DROSEDD CYFEILLIO** ..... 3
- **GWEITHREDU ATALIOL** ..... 4
- **GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH** ..... 4
- **ASTUDIAETHAU ACHOS** ..... 5

## → FFURFIAU O DROSEDD CYFEILLIO

### Camdriniaeth Ariannol

- Gall y troseddwr fynnu neu ofyn am gael benthg arian ac yna ddim yn talu'n ôl.
- Gall y troseddwr gamddefnyddio neu fenthyg a pheidio dychwelyd eiddo unigolyn.
- Pan mae'r unigolyn wedi derbyn eu buddion neu gyflog ac wedi bod yn siopa, gall y troseddwr ymweld a chlirio'r cypyrddau sydd efallai'n llawn bwyd ac alcohol.



### Camdriniaeth Emosiynol

- Gall y troseddwr ddefnyddio neu gamarwain yr unigolyn.
- Gall y troseddwr eu gwneud i deimlo'n ddiwerth.
- Gall y troseddwr alw enwau arnynt.
- Gall y troseddwr feithrin perthynas amhriodol gyda'r unigolyn am droseddau.

### Camdriniaeth Gorfforol

- Gall yr unigolyn cael eu cicio, dyrnu ayyb er difyrrwch y troseddwr ac eraill.
- Gall yr unigolyn gael eu hanafu'n ddifrifol neu gall yr ymosodiad at farwolaeth yn y pen draw.

### Camdriniaeth Rywiol

- Gall yr unigolyn gael eu perswadio i gyflawni puteindra.
- Gall yr unigolyn gael eu cam-fanteisio'n rhywiol gan rywun y credent sy'n gymar neu gyfaill iddynt.
- Gall yr unigolyn gael eu perswadio i gyflawni gweithrediadau rhywiol nad ydynt yn gyfforddus yn eu gwneud.



## → SUT ALLWCH SYLWI AR DROSEDD CYFEILLIO?

Dyma'r arwyddion. Os ydych yn sylwi ar unrhyw un o'r rhain, gall olygu fod yr unigolyn yn dioddef Trosedd Cyfeillio.



- Newidiadau mewn trefn, ymddygiad, gwedd, cyllidau neu gartref (e.e. pobl newydd yn ymweld neu'n aros, llawer o 'gyfeillion' newydd, llawer mwy o sŵn neu sbwriel nag sy'n arferol).
- Anafiadau heb esboniad.
- Bod ynghlwm mewn gweithrediadau rhywiol nad ydynt wedi cytuno iddynt.
- Colli pwysau.
- Ddim yn gofalu amdanynt eu hunain ac edrych yn fudr a blêr.
- Biliau ddim yn cael eu talu.
- 'Cyfaill' sy'n amharchu, bwlio neu fychanu'r unigolyn.
- Yn brin o arian, colli eiddo neu newid eu hewyllys yn sydyn.
- Yr unigolyn 'yn gwneud beth a ddywedwyd wrthynt' gan 'gyfaill'.
- Dangos arwyddion o afiechyd meddyliol.
- Ddim gyda rhwydweithiau arferol cyfeillion / teulu neu'n methu gweithgareddau wythnosol.
- Nwyddau neu becynnau'n cyrraedd tŷ unigolyn (ac yna'n cael eu casglu gan rywun arall yn fuan wedyn).
- Mae'r tŷ'n flêr wedi llawer o bartïon.
- Tynnu'n ôl o wasanaethau cymorth.

Yn aml, nid yw oedolion bregus yn cydnabod eu bod wedi bod yn destun Trosedd Cyfeillio. Mae angen i'r ffocws o alluogi anghenion diogelwch fod ar annog dealltwriaeth yr unigolyn o'u hawl i wneud dewisiadau, ond hefyd eu hawl i barhau'n rhydd o gamdriniaeth.

## → SUT I WEITHREDU OS SYLWIR AR DROSEDD CYFEILLIO

- Siarad â'r dioddefwr. Beth yw eu barn a'u pryderon?
- Dylid gweithredu'n briodol i sicrhau diogelwch y dioddefwr.
- Os amheuir trosedd, rhaid hysbysu'r heddlu waeth os yw'r dioddefwr yn cytuno.
- Os yw'r dioddefwr yn derbyn Taliadau Uniongyrchol a bod yr arian yn cael ei gam-drin, chwiliwch am gyngor gan y Tîm Taliadau Uniongyrchol e.e. a fyddai 'cyrifif rheoledig' yn fwy addas.
- Ymchwilio os yw'r dioddefwr angen cymorth gyda chanslo cardiau banc ayyb.
- Cynnig asesiadau / cymorth fel sy'n briodol.



## → GWEITHREDU ATALIOL

- Dylid ystyried a ddylid galw ar y broses ddiogelu ar gyfer eich sefydliad pan godir amheuron yn hytrach na disgwyl am dystiolaeth galed.
- Mae pobl angen cael eu galluogi i deimlo eu bod yn rhan o'r gymuned.
- Sicrhau fod gan staff ddealltwriaeth o beth yw Trosedd Cyfeillio a sut i'w ganfod ac hysbysu amdano.
- Codi ymwybyddiaeth gymunedol am Drosedd Cyfeillio.
- Sefydlu Trosedd Cyfeillio o fewn amrywiol asiantaethau a wnaiff gysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr.

## → GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

### Ystyried cynnwys asiantaethau eraill:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Cymorth Dioddefwyr
- Swyddogion Diogelwch Cymunedol Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Swyddogion Cyngor
- Gweithwyr Cymdeithasol
- Swyddogion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Gwasanaethau Iechyd Cymunedol



## → ASTUDIAETH ACHOS UN

**Pryder:** Gwnaeth dau droseddwr, a oedd yn ddynion, gyfeillio ag oedolyn bregus gydag anableddau dysgu. Roedd y troseddwr yn hysbys iawn i'r heddlu am drais a lladradau. Yn yr achos hwn, roeddent yn cam-drin yr oedolyn bregus yn ariannol. Roedd yn rhoi arian iddynt pan ofynnwyd iddo. Teimlai nad oedd ganddo ddewis arall. Yn ffodus, dywedodd wrth ei weithiwr gofal beth oedd yn digwydd a throsglwyddwyd y manylion i'r heddlu.

**Ymateb gan Wasanaethau:** Gwnaeth yr Heddlu yna atgyfeirio'r achos at Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Dioddefwyr a gwneud cais iddynt ymweld â'r dioddefwr. Gyda chytuniad y dioddefwr, sefydlwyd ymweliadau llesiant wythnosol. Arweiniodd hyn at y troseddwr yn tynnu'n ôl unwaith roeddent yn ymwybodol fod yr heddlu ynghlwm. Roedd y dyn bregus yn falch fod pobl yn y gymuned yn poeni amdano ac y gallai rannu ei broblemau gyda phobl y gallai ymddiried ynddynt.

## → ASTUDIAETH ACHOS DAU

**Pryder:** Daeth defnyddiwr gwasanaeth gydag anabledd dysgu a chorfforol yn gyfeillion â grŵp o bobl. Gwnaethant fenthyg arian ganddi a'i hannog i honni wrth ei chwmmi yswiriant fod ei gliniadur wedi torri. Mewn gwirionedd, roeddent wedi ei werthu.

**Ymateb gan Wasanaethau:** Gyda chymorth, roedd y defnyddiwr gwasanaeth yn gallu pellhau ei hun o'r grŵp o bobl ac ymuno â grwpiau cymdeithasol eraill. Fodd bynnag, er ei bod yn cydnabod y manteisiwyd arni, mae'n dal i golli'r grŵp o bobl hyn. Mae'n dweud eu bod wedi gwneud iddi deimlo'n 'ddeniadol' a 'normal'.

